Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 am 10.00am.

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB), Philip Blaker (PB), Julie Brannan (JB), Anne-Marie Duffy (AMD), Michael Griffiths (MG), John Latham (JL) Jayne Woods (JW) Hannah Rowan (HR) a Ravi Pawar (RP).

Staff Cymwysterau Cymru: Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT) Ashok Ahir (AA), June Jenkins (JJ) (eitem 6), Jo Moriaty (JM) (eitem 6) Kerry Price (KP) (eitem 11),

Yn arsylwi: Mike Keoghane (MK) o eitem 3 (Llywodraeth Cymru),

Yn cyflwyno: John Britton a Huw Landeg Morris (Halpin) – eitem 3

Ymddiheuriadau: David W Jones (DWJ) a Graham Hudson (GH).

1. Croeso

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 22 Medi 2022 a Diweddariad ar y Camau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar fân newidiadau.

2.2. Nododd y Bwrdd y log gweithredu. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

2.3. O dan faterion sy'n codi, trafododd yr aelodau gynlluniau ymchwil y dyfodol. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb yn y dull gorau o sicrhau ansawdd Asesiadau Di-Arholiad ar gyfer cymwysterau lle mae llawer yn y fantol. Holwyd am ddull CBAC a phrofiad awdurdodaethau eraill. Cyfeiriodd JR at ymchwil a gynhaliwyd gan Ofqual (heb ei gyhoeddi eto). Nododd PB fod ymchwil i gymedroli yn faes o ddiddordeb, yn enwedig yng ngoleuni'r effaith ar lwyth gwaith athrawon a realiti cyflawni 'cymedroli cadarn'. Roedd cyfle i drafod hyn ymhellach yn niwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Ionawr.

Confirmed

2.4. Nododd yr aelodau hefyd fod yna ddulliau asesu gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol ac yn meddwl tybed a fyddai'r sefydliad yn gweld bod set o egwyddorion i'w defnyddio wrth ddewis dulliau asesu yn ddefnyddiol.

2.5. Gofynnodd yr aelodau pryd y gallai ystadegau ar adolygiadau haf 2022 o waith marcio a chymedroli fod ar gael. Cadarnhaodd JR y byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi 9 Rhagfyr. Yn ôl diweddariadau rheolaidd gan CBAC, roedd y niferoedd yn debyg i'r cyfnod cyn Covid.

2.6. Nododd y Cadeirydd y byddai Blaenoriaethau Strategol Cymwysterau Cymru yn cael eu cyhoeddi ar y wefan tua 15 Rhagfyr.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod ar 22 Medi 2022 (yn amodol ar fân newidiadau) a nododd y log gweithredu.**

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddiwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Ionawr a gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag AS neu ef ei hun yn ystod y pythefnos nesaf gydag unrhyw syniadau ar gyfer cynnwys. Roedd agenda ddrafft yn cael ei datblygu ac roedd y Gweinidog wedi'i wahodd.

3.2. Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr yr oedd y Prif Weithredwr newydd ei dderbyn gan Golegau Cymru yn gofyn am saib yn y gwaith o ddiwygio cymwysterau galwedigaethol ôl-16. Roedd Cymwysterau Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad ar yr adolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo (TTLIA) ym mis Ionawr ac ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig – fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol. Ni ofynnir i'r Bwrdd ystyried yr adroddiad penderfyniadau tan hydref 2023. Byddai angen cyfnod estynedig ar gyfer comisiynu a datblygu ar gyfer unrhyw gymwysterau newydd a byddai'r broses gyfan yn un gwbl ymgynghorol. Roedd y Prif Weithredwr yn bwriadu ymateb ac egluro'r broses a'r amserlenni. Nodwyd bod rheoli newid yn bwysig a bod gwersi i'w dysgu bob amser am gyfathrebu. Roedd yr adolygiad cyflym o'r cymwysterau newydd mewn adeiladu wedi dangos amrywiaeth eang yn y modd yr oedd gwahanol golegau wedi mynd i'r afael â'r newidiadau. Cadarnhaodd y Bwrdd y dylai'r ymgynghoriad TTLIA fynd rhagddo fel y cynlluniwyd a nododd y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu yn yr hydref.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.**
- **Cadarnhaodd y Bwrdd y dylai ymgynghoriad TTLIA fynd rhagddo yn ôl y bwriad ym mis Ionawr 2023.**

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Confirmed

4.1. Ymdriniwyd â'r eitem hon gan AS a JR. Nododd AS fod yr ICO wedi ysgrifennu i gadarnhau ei bod wedi cau ei hymholiadau i broses ddyfarnu haf 2020 a bod ei llythyr blaenorol wedi'i dynnu'n ôl. Byddai'r risg cysylltiedig nawr ar gau.

4.2. Roedd gwaith i adolygu anghenion adnoddau wedi'i gwblhau, ac roedd PB newydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i amlinellu cais am gynnydd mewn cyllid. Roedd y cais yn rhestru'r disgwyliadau a osodwyd ar y sefydliad ar gyfer diwygio cymwysterau pellach. Roedd yn amlinellu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Cynnig Ehangach (eitem 6), a oedd nawr yn cael ei alw'n Gynnig Llawn, gan nodi adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i roi'r sefydliad ar sylfaen fwy cynaliadwy a'r cyllid sydd ei angen i dalu am ddyfarniadau cyflog. Gofynnodd am i'r cyllid dros dro o leiaf ar gyfer Cymwys ar gyfer y dyfodol gael ei ymestyn i 2027 a'i ddarparu hefyd fel cyllid craidd rheolaidd. Byddai ymestyn y cyfnod o gyllid ychwanegol yn golygu bod modd cyflwyno'r Cynnig Llawn. Byddai gwneud hon yn ddarpariaeth barhaol yn helpu i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio i swyddi cyfnod penodol ac yn galluogi'r sefydliad i barhau i ganolbwyntio ar ddiwygio. Nid oedd y cais yn cynnwys unrhyw adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen i ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad VQ ym mis Gorffennaf 2023 pe bai'r argymhellion hynny'n arwain at waith y tu hwnt i'r cynlluniau presennol.

4.3. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r sefydliad yn gallu cyflawni gwaith y Cynnig Llawn pe na bai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu. Esboniodd AS fod y timau wedi ystyried amseriad diwygiadau TGAU a'r cynnig ehangach a chyda chynllunio gofalus y gellid gwneud lle i'r gwaith cychwynnol. Ar y sail hon roedd y raddfa risg wedi'i gostwng a theimlwyd y dylai'r ymgynghoriad fynd rhagddo. Pe na bai Llywodraeth Cymru yn ymestyn y cyllid yn unol â'r cais, yna efallai y bydd yn rhaid adolygu'r amserlenni. Gallai'r sefydliad hefyd ystyried ailflaenoriaethu gwaith arall neu ailystyried ei ddull o ymdrin â chyllid grant. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau fod y mater wedi'i drafod a bod y pwyllgor yn fodlon gyda'r dull gweithredu.

4.4. Nododd yr aelodau pe bai'n rhaid newid amserlenni yn y dyfodol, yna byddai hyn yn gofyn am reoli rhanddeiliaid yn ofalus. Nododd EG y byddai gofyn i'r Bwrdd wneud penderfyniadau ar ymgynghoriad y Cynnig Llawn yn hydref 2023 ac erbyn hynny byddai agwedd Llywodraeth Cymru at ariannu'n hysbys, yn ogystal ag ymatebion cyrff dyfarnu i'r cynigion.

4.5. Rhoddodd JR ddiweddariad ar gyfres yr hydref o arholiadau TGAU mewn Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd, a Chymraeg a Saesneg Iaith. Byddai ystadegau cofrestriadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr. Roedd gwaith marcio ar y gweill ac roedd y canlyniadau i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr. Doedd dim materion arwyddocaol wedi codi.

4.6. Cadarnhaodd JR fod gwaith technegol ar y gweill i baratoi ar gyfer dyfarniad haf 2023 a chefnogi'r safbwynt polisi ar gyfer canlyniadau i fod hanner ffordd yn fras rhwng 2019 a 2022. Roedd canllawiau rheoleiddiol i ganolfannau ar gynllunio wrth gefn yn cael eu diwygio i beidio â bod yn benodol i flwyddyn benodol mwyach.

Confirmed

Roedd cyfathrebu yn cael ei gynllunio. Roedd y Pwyllgor Rheoleiddio wedi trafod yr eitemau hyn yn fanylach yn ei gyfarfod diwethaf.

4.7. Yna, rhoddodd JR ddiweddariad ar gorff dyfarnu a oedd yn cael trafferthion ariannol. Roedd y materion wedi'u nodi yn ystod y broses Datganiad Cydymffurfiaeth (SOC) yn 2020/21 ac roedd Cymwysterau Cymru ac Ofqual wedi bod yn monitro'r sefyllfa'n agos. Roedd tua 100 o ddysgwyr wedi eu cofrestru i gymryd cymwysterau gyda'r corff dyfarnu. Roedd cyrff dyfarnu eraill yn y farchnad a oedd yn cynnig cymwysterau tebyg. Roedd cyngor cyfreithiol yn cael ei gymryd yn barhaus. Roedd hysbysiad wedi'i gyflwyno yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu beidio â chofrestru dysgwyr newydd mwyach ac i gyfathrebu â chanolfannau. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi i'r Bwrdd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.**

5. Adolygiad Halpin o Effeithiolrwydd y Bwrdd

5.1. Croesawodd y Cadeirydd John Britton (JB) a Huw Landeg Morris (HLM) i'r cyfarfod. Roedd Halpin wedi'i gontractio i gwblhau adolygiad llywodraethu. Cyflwynodd JL ac LM eu gwaith a'u canfyddiadau. Nodwyd bod y cyfarfod Bwrdd a arsylwyd wedi'i gynnal yn dda gydag enghreifftiau o arfer da. Trafodwyd materion yn agored, a'r casgliad oedd bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

5.2. Roedd chwe argymhelliad blaenoriaeth wedi'u nodi ynghyd â phwyntiau eraill i'w hystyried. Roedd Halpin ar gael (heb unrhyw dâl ychwanegol) i gynnal adolygiad effaith ar ôl 6-12 mis os dymunir.

5.3. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn sefydliad a Bwrdd hyderus ond bod cyfleoedd bob amser i wella, a byddai'r adroddiad yn ddefnyddiol. Nododd y byddai'r Bwrdd yn trafod yr argymhellion ymhellach yn eu cyfarfod ym mis Ionawr.

5.4. Gofynnodd yr aelodau sut yr oedd Halpin yn meincnodi sefydliadau sy'n perfformio'n dda yn y sector addysg a sut fyddai ar safon aur yn edrych. Nododd HLM fod Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa dda i reoli'r heriau a wynebir gan y sector a rhoddodd enghraifft o waith i gefnogi'r Gymraeg. Teimlai mai'r her i'r sefydliad oedd sut orau i hyrwyddo a chyfathrebu ei waith a dangos presenoldeb.

5.5. Diolchodd y Cadeirydd i JB a HLM a chadarnhaodd yr hoffai iddynt ddychwelyd i gwblhau asesiad effaith yn y dyfodol.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd y cyflwyniad ar yr adolygiad Llywodraethu a chytunodd i wahodd Halpin i ddychwelyd i gwblhau asesiad effaith mewn 6-12 mis.**

6. Y Cynnig Ehangach – caniatâd i ymgynghori

Confirmed

6.1. Nododd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn ymwneud â pha gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed ddylai sefyll ochr yn ochr â chymwysterau TGAU. Roedd angen penderfyniad ar ganiatâd i ymgynghori ar gynigion ac ar gynyddu adnoddau. Nododd fod aelodau'r Bwrdd wedi cael cyfle i fynychu sesiwn friffio yn gynharach yr wythnos honno.

6.2. Rhoddodd CT gyflwyniad yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwil i anghenion dysgwyr a sut roedd y pedwar cynnig yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain.

6.3. Roedd y cynnig cyntaf ar gyfer cymwysterau wedi'u strwythuro o amgylch pob Maes Profiad a Dysgu (MDPh) wedi'u hanelu at ddysgwyr a fyddai'n dilyn cymwysterau lefel Mynediad/lefel 1. Gallai'r rhain gael eu henwi'n gymwysterau 'sylfaen'. Nododd y byddai angen mwy nag un cymhwyster ym MDPh ieithoedd.

6.4. Roedd yr ail gynnig yn ymwneud â chymwysterau ar gyfer Sgiliau Bywyd a Gwaith, yn ogystal â chymhwyster Prosiect. Nodwyd y gallai fod angen newid teitl yr olaf i adlewyrchu ei fod yn cael ei asesu trwy brosiect yn hytrach na chymhwyster mewn sgiliau rheoli prosiectau.

6.5. Roedd y trydydd cynnig yn ymwneud â chymwysterau cyn-alwedigaethol. Nododd CT fod ystod o ddarpariaeth yn y maes hwn eisoes ac y byddai gwaith yn golygu bod cyrff dyfarnu yn addasu'r cymwysterau hyn a'u cynnig yn ddwyieithog i ddod yn gymwysterau cymeradwy.

6.6. Roedd y pedwerydd cynnig yn ymwneud â datblygu brand i ddiffinio'r 'Cynnig Llawn'. Gellid galw hyn yn Dystysgrif Ysgol Cymru. Nododd CT fod Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol o'r syniad i ddatblygu brand ond y byddai'n well ganddi pe na bai'r cynnig yn ymrwymo i'r teitl tra bod y Gweinidog yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cysyniad portffolio dysgwr. Gofynnodd CT pe bai'r Bwrdd yn cytuno i ymgynghori eu bod yn rhoi'r rhyddid i swyddogion wneud y penderfyniad ar y ffordd orau o gyflwyno'r opsiwn o ddefnyddio Tystysgrif Ysgol Cymru.

6.7. Nododd CT y byddai cyflawni'r cynigion yn lleihau'r nifer o dros 1,000 i'n agosach at 100. Manteision y cynigion fyddai cynnig symlach a theg, a fyddai'n gwbl ddwyieithog, a fyddai'n helpu dysgwyr a chanolfannau i wneud dewisiadau mwy gwybodus o ystod o gymwysterau a allai baratoi dysgwyr yn well ar gyfer bywyd a gwaith ac a fyddai'n cael eu gwerthfawrogi'n fwy. Pe bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai'r ymgynghoriad yn lansio ym mis Chwefror 2023. Byddai gofyn i'r Bwrdd gadarnhau penderfyniadau ym mis Ionawr 2024.

6.8. Roedd aelodau yn gefnogol iawn i'r gwaith o ddatblygu'r cynigion ac o'r farn y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddysgwyr.

6.9. Teimlai rhai aelodau y byddai'n well cadw'r cynnig brandio yn gyffredinol, er y gellid awgrymu Tystysgrif Ysgol Cymru fel opsiwn posibl yn y naratif.

Confirmed

6.10. Roedd yr aelodau'n ansicr ai Sylfaen oedd y teitl cywir ar gyfer y gyfres lefel mynediad/lefel 1 o ystyried ei defnydd eang mewn mannau eraill ac awgrymwyd opsiynau eraill i'w hystyried. Teimlai'r aelodau hefyd y byddai angen confensiynau enwi gwahanol ar gymwysterau ar gyfer ieithoedd ar y lefel hon gan fod y dull gweithredu'n wahanol. Cynigiodd rhai aelodau sydd â chefndir mewn ieithoedd gael sgwrs bellach gyda swyddogion ar hyn.

6.11. Hoffai'r aelodau i'r ymgynghoriad ddangos i ysgolion sut y gallent amserlennu'r cynigion yn ymarferol ac awgrymwyd y gellid darparu rhai cynlluniau enghreifftiol hefyd. Roedd gan aelodau ddiddordeb hefyd mewn pa ganllawiau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i ysgolion mewn perthynas â dysgwyr sy'n astudio rhywbeth o bob MDPh.

6.12. Dywedodd RP ei fod yn bwriadu modelu hyn ar gyfer Ysgol Gyfun Bryntirion i weld sut yr oedd yn cyd-fynd ag addysgu ym mlynyddoedd 7 ac 8 a chynigiodd gyfarfod â swyddogion i rannu syniadau.

6.13. Ar gyfer y cymwysterau cyn-alwedigaethol gofynnodd yr aelodau a fyddai pob corff dyfarnu yn fodlon cynnig y rhain yn ddwyieithog a hoffent adolygu hyn ar ôl yr ymgynghoriad. Hoffai'r Aelodau ddeall hefyd sut y byddai'r rhan hon o'r cynnig yn cael ei diogelu at y dyfodol i adlewyrchu newidiadau yn yr economi. Cytunodd yr Aelodau fod diogelu sgiliau at y dyfodol hefyd yn bwysig i adlewyrchu anghenion cyflogwyr.

6.14. Nododd yr aelodau fod angen paratoi cyfathrebiadau i egluro pam na fyddai'r cymwysterau hyn ar gael tan 2027.

6.15. Ymdriniodd EG â'r cynlluniau adnoddau a'r risgiau cysylltiedig. Roedd gwaith cynllunio wedi'i gwblhau i edrych ar sut y gellid defnyddio adnoddau Cymwys ar gyfer y dyfodol presennol i gyflawni rhywfaint o'r gwaith hwn. Gydag amseru gofalus, gallai ei dîm ddatblygu'r cymwysterau MDPh ochr yn ochr â'u gwaith ar gymwysterau TGAU. Byddai angen cadw'r tîm hwn hyd at 2026 ond roedd trafodaethau eisoes ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ar gyllid cyffredinol. Roedd angen pedair swydd arall hefyd i gyflawni'r amserlenni arfaethedig.

6.16. Bu'r Aelodau'n trafod y risgiau i enw da yn sgil y posibilrwydd o orfod newid amserlenni os na ddarperir cyllid ychwanegol, ond cydnabuwyd bod gan y sefydliad opsiynau i ailflaenoriaethu gwaith neu adolygu ei ddull o ariannu grant. Cytunodd yr aelodau i ymgynghori ar y cynigion ym mis Chwefror 2023.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar gynigion y Cynnig Llawn ym mis Chwefror 2023.**

7. Adroddiad Blynyddol

Confirmed

7.1. Roedd yr aelodau eisoes wedi rhoi adborth ar yr Adroddiad Blynyddol drafft. Dywedodd AA sut yr aethpwyd i'r afael â hyn, gan gynnwys newidiadau i'r graffiau i sicrhau eu bod yn fwy hygyrch. Nododd AA fod y rhagolwg yn rhagflas o'r blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt. Cadarnhaodd y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPEC) cyn y sesiwn graffu ar 8 Rhagfyr. Byddai'n cael ei gyhoeddi ar y wefan fel PDF. Ar gyfer y dyfodol, byddai mwy o ddefnydd o ddeunydd digidol yn cael ei ystyried.

7.2. Cymeradwyodd y Bwrdd gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a dirprwyo cymeradwyaeth derfynol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol, gan ddirprwyo cymeradwyaeth derfynol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.**

8. Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

8.1. Cyflwynodd AS y cynllun drafft. Atgoffodd y Bwrdd fod aelodau, mewn ymateb i gynllun Gwrth-Hiliaeth Llywodraeth Cymru, wedi mynychu gweithdai i drafod syniadau. Roedd y papur yn amlinellu sut yr ymdriniwyd â'r rhain yn y cynllun drafft. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am weld pa amcanion yr oedd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd wedi cytuno arnynt ac y gallai fod angen iddi wneud mân newidiadau i'r cynllun i wneud hyn yn glir.

8.2. Roedd yr aelodau yn hoffi'r cyflwyniad byr ac yn cefnogi'r cynnwys. Awgrymwyd y canlynol:

- Bod angen ychwanegu pwynt bwled at yr amcan ar ddata i ddisgrifio'r camau a fwriadwyd.
- Dileu 'treial' o'r broses sifftio dienw ac yn hytrach bod y sefydliad yn ei weithredu ond yn monitro'r effaith.

8.3. Awgrymodd yr aelodau bod angen gofyn i staff am eu barn cyn trefnu hyfforddiant ar ba gam/lefel oedd eu dealltwriaeth fel y gellid trefnu hyfforddiant priodol.

8.4. Gofynnodd yr aelodau pa mor hyderus oedd y sefydliad y gallai gyflawni'r cynllun. Nododd AS fod rhai camau gweithredu eisoes ar y gweill, ond y gallai rhai camau gweithredu megis allgymorth fod yn anodd pe bai adnoddau'n cael eu cyfyngu. Nododd AS fod y Pwyllgor Adnoddau wedi gofyn am gael diweddariadau rheolaidd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth yn amodol ar fân welliannau.**

Confirmed

9. Diweddariad ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol

9.1. Rhoddodd EG ddiweddariad i'r aelodau ar y cynnydd o ran cyflawni'r prosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol. Soniodd am gyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog lle trafodwyd safonau dros amser. Roedd y Gweinidog wedi nodi'r dull cytbwys sydd ei angen ar gyfer cymwysterau newydd gyda chyfran fawr o asesiadau di-arholiad. Trefnwyd cyfarfod pellach ym mis Rhagfyr i drafod y Cynnig Llawn yn fanylach. Byddai'r cyfarfod hwn hefyd yn cyffwrdd â'r sylwadau a welwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud â gwyddoniaeth integredig a chymwysterau iaith a llenyddiaeth cyfun.

9.2. Er mwyn ceisio lleihau hyd y papur roedd EG wedi darparu'r dangosfwrdd a ddefnyddiwyd yn fewnol ac wedi gofyn am adborth. Cytunodd yr aelodau fod y fformat hwn yn ddefnyddiol.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd y diweddariad ar gynnydd Cymwys ar gyfer y dyfodol a chadarnhawyd bod fformat y dangosfwrdd yn ddefnyddiol.**

10. Cymeradwyo ymgynghori ar ddull rheoleiddio i sicrhau cyfres newydd o gymwysterau TGAU

10.1. Cyflwynodd JR y papur. Roedd gwaith wedi'i gwblhau i ddatblygu amodau cydnabod a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu sy'n cynnig y gyfres newydd o gymwysterau TGAU gynnig y gyfres gyfan am y cyfnod cymeradwyo llawn a hefyd ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau eraill gydweithio i hyrwyddo aliniad y gyfres.

10.2. Roedd y cynnig wedi'i drafod yn fanwl yn y Pwyllgor Rheoleiddio gyda'r awgrym i ddileu'r amod yn ymwneud â chyrff dyfarnu yn cydweithio ar y cymwysterau heblaw gymwysterau TGAU ac yn lle hynny i fynd i'r afael â hyn drwy ddulliau eraill. Roedd hyn i'w drafod yn fewnol gyda'r bwriad o weithredu arno.

10.3. Roedd y Pwyllgor Rheoleiddio hefyd wedi awgrymu ymestyn y cyfnod amser yr oedd yr ymgynghoriad yn agored ar ei gyfer, a nododd JR y byddai hyn yn cael ei weithredu os oedd yn bosibl. Nododd JR mai dim ond pedwar corff dyfarnu oedd yn cynnig cymwysterau TGAU ac a fyddai felly'n cael eu heffeithio.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar sicrhau'r cynnig TGAU.**

11. Adroddiad Rheoli Risg

11.1. Cyflwynodd AS ac LE yr adroddiad. Roedd y gofrestr wedi'i hadolygu ac ychwanegwyd rhai risgiau newydd, a diwygiwyd sgorau. Roedd nifer o risgiau yn

Confirmed

ymwneud â dyfarnu haf 2022 wedi dod i ben. Byddai'r risg newydd sy'n ymwneud ag ymchwiliad yr ICO nawr yn cael ei gau.

11.2. Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion edrych i weld a oedd y risgiau'n ymwneud ag anawsterau recriwtio wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol a chytunwyd y byddai'r ARAC yn adolygu hyn.

11.3. Gofynnodd yr Aelodau am y risg yn ymwneud â gweithredu'r system gyllid. Nododd AS gan fod y Bwrdd yn gweld risgiau gyda sgôr o 12 neu fwy nad oedd hyn ar y gofrestr. Fodd bynnag, roedd wedi ei gynnwys yn adroddiad y Prif Weithredwr. Gofynnodd yr aelodau a oedd y sgôr risg yn ddigon uchel a dywedodd AS ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Cadarnhaodd Cadeiryddion ARAC a'r Pwyllgor Adnoddau eu bod wedi derbyn diweddariadau manwl ar gynnydd.

11.4. Trafododd yr Aelodau'r risgiau'n ymwneud â gweithrediadau corff dyfarnu mawr. Rhoddodd JR ddiweddariad manylach ar y gwahanol faterion sy'n sail i'r risg hon. Nododd JR y bu rhai gwelliannau yn y dull gweithredu gyda phenodiad Swyddog Cyfrifol newydd a dechrau rhaglen drawsnewid. Roedd eu hymagwedd at ymchwiliadau camymddwyn hefyd bellach yn cydymffurfio. Roedd y corff dyfarnu yn adolygu a ddylid cydgrynhoi ei gynnig cyffredinol a byddai hyn yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn deall unrhyw effaith ar y cynnig yn y dyfodol yng Nghymru.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd yr adroddiad risg a thrafodwyd rhai o'r risgiau penodol yn fanylach.**

12. Diweddariad ar Gynllun Gweithredol a Chyllideb 2022/23

12.1. Cyflwynodd LE yr adroddiad. Eglurwyd bod sgôr oren yn cael ei rhoi ar gyfer tasg a oedd yn rhedeg yn hwyr neu a oedd mewn perygl o beidio â chael ei chyflawni yn unol â'r cynllun.

12.2. Gofynnodd yr aelodau am y sgôr oren yn yr is-flaenoriaeth cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol. Esboniodd AA fod oedi wedi digwydd oherwydd bylchau mewn adnoddau ond bod gwaith bellach ar y gweill.

12.3. Nodwyd, ar ôl cyfnod o ansicrwydd, fod City & Guilds wedi cadarnhau'n ddiweddar y byddent yn parhau â chymhwyster Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth hyd at 2025 ac yn amodol ar arian grant y byddent yn cynnig hwn yn ddwyieithog.

12.4. Gofynnodd aelod sut roedd y sgôr ar gyfer y tasgau yn effeithio ar y raddfa ar gyfer yr is-flaenoriaeth gyffredinol. Eglurodd LE fod hyn yn cael ei adolygu gan y Bwrdd Rheoli bob mis a bod y penderfyniad yn cael ei wneud yno ar y raddfa gyffredinol. Cytunwyd bod copi o'r daenlen cynllun gweithredol manwl yn cael ei lwytho i ardal Sharepoint y Bwrdd.

Confirmed

12.5. Cyflwynodd KP y diweddariad ar y gyllideb. Cyfeiriodd at ragolygon y gyllideb a oedd yn nodi na fyddai angen £150,000 o gyllid ychwanegol 2022/23 ar gyfer Cymwys ar gyfer y dyfodol. Cytunwyd y dylid hysbysu Llywodraeth Cymru yn unol â hynny. Nodwyd bod angen cyllid ychwanegol, yn unol â'r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru, i alluogi'r sefydliad i gwblhau gwaith diwygio yn unol â'r cynllun.

12.6. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai unrhyw effaith ar gyllid o ganlyniad i Adolygiad o Wariant y DU. Cadarnhaodd MK fod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut i reoli newidiadau yn y dyfodol, ond nad oedd unrhyw gynlluniau i newid cyllideb 2023/24 a oedd yn cael ei ystyried gan y Senedd ym mis Rhagfyr.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd y diweddariad ar y cynllun gweithredol a'r diweddariad ar y gyllideb.**

13. Cylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau

13.1. Dywedodd AS fod pob pwyllgor wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl yn ystod y flwyddyn ac wedi cynnig rhai newidiadau. Roedd y Pwyllgor Rheoleiddio wedi gwneud newidiadau mwy sylweddol ac roedd hyn wedi cymryd mwy o amser i'w gwblhau. Byddai'r pwyllgor hwn bellach yn cael ei adnabod fel y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio a Goruchwylio Safonau (RPSO). Gofynnodd i'r Bwrdd gytuno ar y newidiadau drafft i bob Cylch Gorchwyl.

13.2. Cynigiwyd mân newid i ddrafft pwyllgor RPSO i ddatgan bod y Cadeirydd yn aelod parhaol. Byddai newid pellach yn cael ei wneud i egluro'r geiriad 'arwyddocaol'. Yn amodol ar y newidiadau hyn, cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl newydd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cytunodd y Bwrdd ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer pob pwyllgor.**

14. Adroddiadau'r pwyllgorau

14.1 Cyflwynodd pob Cadeirydd eu crynodeb o gyfarfodydd diweddar y pwyllgor. Pwysleisiodd Cadeirydd ARAC y drafodaeth ar fygythiadau seiber a'r angen i gynnwys ystyriaethau o ymosodiadau ar gadwyni gyflenwi. Nododd Cadeirydd y pwyllgor adnoddau y bwriad i gynnal cyfarfod byr ym mis Ionawr i ystyried sut mae'r cynlluniau gweithredol yn trosglwyddo rhwng blynyddoedd ariannol. Nododd Cadeirydd y pwyllgor rheoleiddio fod trafodaeth fanwl wedi'i chynnal ar y risgiau rheoleiddio a diwygio.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd y diweddariadau gan bob pwyllgor**

Confirmed

15. Rhagolwg

15.1 Nododd y Bwrdd y Rhagolwg.

16. Unrhyw fater arall

16.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd a phawb arall a oedd wedi cyflwyno papurau, am eu cyfraniadau i gyfarfod cynhyrchiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10pm

Confirmed